**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Melding AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

17 Tachwedd 2014

Annwyl David,

Rwy'n ysgrifennu ynglŷn â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2015 ("y Rheoliadau uwchraddio"). Mae angen y Rheoliadau hyn er mwyn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 i uwchraddio'r ffigurau ariannol yn unol â'r cynnydd mewn costau byw. Yn ogystal ag uwchraddio, bydd y Rheoliadau hyn yn gwneud mân welliannau eraill i Reoliadau 2013.

Mae'r ffordd y caiff yr uwchraddio ei gyfrifo yn dibynnu ar y ffigyrau ariannol a nodir gan y Canghellor yn Natganiad yr Hydref, yn ogystal â'r amserlen uwchraddio y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ei pharatoi ar gyfer budd-daliadau nawdd cymdeithasol rhyngberthynol, fel Budd-dal Plant a'r Credyd Cynilion.

Gwneir Datganiad yr Hydref ar 3 Rhagfyr 2014, ac rydym wedi cael ein hysbysu dros dro na fydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cyhoeddi'r amserlen uwchraddio cyn 4 Rhagfyr. Ni fyddaf yn gallu gosod y Rheoliadau diwygio tan o leiaf 5 Rhagfyr felly. Mae hyn yn golygu nad oes modd cynnal trafodaeth lawn, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, tan 27 Ionawr 2015.

Er nad oes goblygiadau i hyn o ran y Rheoliadau eu hunain, mae'n cyflwyno her ymarferol i'r awdurdodau lleol gan fod rhaid iddynt gynnwys y ffigurau ariannol uwch yn eu Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor drwy'r Cyngor llawn erbyn 31 Ionawr fan bellaf, a hynny er mwyn i'r ffigurau uwch ddod i rym yn y flwyddyn ganlynol.

Nid oes unrhyw ddarpariaethau sy'n caniatáu i awdurdodau lleol newid eu Cynlluniau yn ystod y flwyddyn. Nid oes mecanwaith, felly, er mwyn sicrhau bod awdurdod lleol yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

mabwysiadu'r ffigurau ariannol uwch os bydd Cyngor yn cyfarfod i fabwysiadu ei Gynllun cyn i'r Cynulliad drafod y Rheoliadau diwygio. Mae hyn yn golygu bod perygl na fydd pob awdurdod lleol yn defnyddio'r ffigurau uwch. Golyga hyn y gall ymgeiswyr o wahanol ardaloedd gael eu trin yn wahanol, ac y bydd rhai ymgeiswyr yn waeth eu byd gan nad yw'r cynnydd mewn costau byw yn cael ei gynnwys.

Rhoddwyd gwybod i'r awdurdodau lleol am yr amserlen ar gyfer llunio'r Rheoliadau diwygio, a gofynnwyd iddynt sicrhau bod ganddynt drefniadau i gynnwys y ffigurau ariannol uwch yn y Cynlluniau y byddant yn eu mabwysiadu.

Fodd bynnag, er mwyn galluogi awdurdodau lleol i baratoi a mabwysiadu'r ffigurau uwch, byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn fodlon ystyried y Rheoliadau ac adrodd arnynt cyn 27 Ionawr, a hynny er mwyn trefnu i gynnal y drafodaeth lawn yn gynharach. Buoch mor garedig â hwyluso'r paratoadau hyn at ddibenion uwchraddio Rheoliadau 2014-15.

Mae'r Rheoliadau diwygio yn rhai byr, a byddai fy swyddogion yn fwy na bodlon i weithio gyda'ch swyddogion chi i gefnogi'r broses graffu. Rwyf hefyd yn fodlon rhannu copi o'r Rheoliadau drafft gyda'r Pwyllgor. Rwy'n disgwyl y bydd y rhain ar gael erbyn 5 Rhagfyr, er ei bod yn bosibl mai dim ond ffigurau dros dro fydd ynddynt, gan ddibynnu pryd bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau'n cyhoeddi'r amserlen uwchraddio.

Efallai yr hoffai'r Aelodau wybod hefyd, oherwydd amser Datganiadau'r Hydref, ei bod yn debygol y byddwn mewn sefyllfa debyg yn y dyfodol wrth uwchraddio Rheoliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Yn gywir,

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services